UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Tâl a Phensiynau

Cyflogau Athrawon 2010-2011

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Cyflogau Athrawon: 2010-11

POLISI CYFLOGAU

Rhaid i'r corff perthnasol (fel arfer y corff llywodraethu) fabwysiadu polisi sy'n nodi sut y mae'n penderfynu ar gyflogau athrawon, a dyddiad yr adolygiad cyflogau blynyddol.

Rhaid i'r corff sefydlu gweithdrefnau i apelio yn erbyn y penderfyniadau hynny.

1. Prif Raddfa Cyflogau Athrawon Cymwysedig

- Mae'r brif raddfa gyflogau yn cynnwys 6 phwynt
- Mae pawb yn dechrau ar bwynt 1 ond mae hawl gan y corff perthnasol gynnig pwyntiau ychwanegol am brofiad perthnasol y tu allan i addysgu
- Bydd athro yn derbyn 1 pwynt am bob blwyddyn o wasanaeth hyd nes y bydd yn cyrraedd pwynt 6. Os nad yw perfformiad athro yn foddhaol yn dilyn yr adolygiad blynyddol, nid oes rhaid cynnig pwynt ychwanegol
- Gall athro sy'n perfformio'n arbennig o dda yn ystod y flwyddyn dderbyn 2 bwynt

Prif Raddfa Athrawon yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio Llundain)

	1 Medi 2009	1 Medi 2010
Pwynt ar y raddfa	**Cyflog Blynyddol**	
1	£21,102	£21,588
2	£22,771	£23,295
3	£24,602	£25,168
4	£26,494	£27,104
5	£28,582	£29,240
6	£30,842	£31,552

2. Amrediad Cyflog Uwch (Y Trothwy)

- Mae'r amrediad cyflog uwch yn cynnwys 3 phwynt
- Mae athro'n gymwys i wneud cais i groesi'r trothwy ar ôl cyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa
- Os yw athro, ym marn y Pennaeth, yn cyrraedd y safonau craidd (yng Nghymru y safonau craidd yw'r safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sefydlu) yna gall y Pennaeth fynd ati i asesu cais yr athro i groesi'r trothwy
- Os ydy'r athro, yn ôl yr asesiad trothwy, yn cyrraedd y safonau perfformiad cenedlaethol, caiff ei roi ar bwynt 1 o'r amrediad cyflog uwch i'w dalu o 1 Medi'r flwyddyn ysgol ganlynol
- Bydd y canlynol yn mynd ar y raddfa uwch yn awtomatig:

  - athro dosbarth a gyflogwyd ddiwethaf fel pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol;

  - athro dosbarth a gyflogwyd ddiwethaf am o leiaf blwyddyn gan Awdurdod Lleol fel ymgynghorydd addysg neu arolygwr ac fe'i talwyd ar raddfa Soulbury

  Yn yr achosion hyn, bydd hawl gan y corff perthnasol ddewis pa bwynt ar y raddfa gyflogau uwch i'w gosod.
- Bydd cynnydd pellach i fyny'r raddfa yn ddibynnol ar ddisgresiwn y corff perthnasol, ond nid oes modd gwneud hynny am o leiaf dwy flynedd, heblaw mewn eithriadau prin. Bydd y rhai a groesodd y trothwy ym Medi 2008 yn gymwys i godi pwynt ym Medi 2010

Graddfa Cyflogau Ôl-Drothwy yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio Llundain)

	1 Medi 2009	1 Medi 2010
Pwynt ar y raddfa	**Cyflog Blynyddol**	
U1	£33,412	£34,181
U2	£34,650	£35,447
U3	£35,929	£36,756

Am ragor o wybodaeth am groesi'r trothwy â'r symud i fynnu'r raddfa ôl-drothwy, gweler taflen wybodaeth UCAC: **Y Trothwy Perfformiad**.

3. Lwfansau, Cymelldaliadau a Budd-daliadau Amrywiol

3.1 Lwfansau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (Lwfansau CAD - *TLR*)

- Rhoddir taliadau CAD i athrawon sy'n atebol am gyfrifoldebau penodol sylweddol wedi eu ffocysu ar addysgu a dysgu ac sydd yn ychwanegol at eu dyletswyddau fel athrawon dosbarth. (Gweler y School Teachers' Pay and Conditions Document am y diffiniad llawn)
- Mae'r taliadau ar ddwy raddfa: CAD 1 a CAD 2. Mae yna bosibilrwydd o 3 gwahanol lefel o CAD 1, a 3 gwahanol lefel o CAD 2
- Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau os ydyw'n dyfarnu lwfansau o wahanol werth i 2 neu fwy o athrawon bod isafswm o £1,500 o wahaniaeth rhwng pob dyfarniad CAD 1 a rhwng pob dyfarniad CAD 2

Lwfansau CAD o fis Medi 2010 (ffigyrau 2009 mewn cromfachau)

CAD 1	cychwyn ar £7,323 (£7,158)	uchafswm o £12,393 (£12,114)
CAD 2	cychwyn ar £2,535 (£2,478)	uchafswm o £6,197 (£6,057)

3.2 Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Mae'n fwriad i gyflwyno graddfa newydd ar gyfer athrawon AAA a fydd yn disodli'r lwfansau AAA. Derbyniodd y Cyn-Weinidog Addysg yr argymhellion cyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mawrth 2010. Bydd UCAC yn darparu gwybodaeth bellach ar ôl derbyn cadarnhad o'r manylion.

Ar hyn o bryd ceir amrediad o 2 lwfans AAA. Mae'n rhaid i'r corff perthnasol rhoi lwfans AAA i athro dosbarth:

a) mewn ysgol i blant ag anghenion arbennig

b) mewn ysgol prif ffrwd sy'n gweithio yn gyfan gwbl neu'n bennaf:

- yn addysgu disgyblion gyda datganiadau o AAA mewn dosbarthiadau dynodedig ar gyfer plant ag AAA
- yn cymryd cyfrifoldeb am addysgu plant ag anabledd ar y golwg neu'r clyw

c) Gall y corff perthnasol roi lwfans AAA1 i athro dosbarth mewn ysgol prif ffrwd lle:

- mae'r athro'n gwneud cyfraniad arbennig i addysgu disgyblion gydag AAA sydd yn sylweddol yn uwch nag a ddisgwylir gan athrawon eraill yn yr ysgol

ch) Gall y corff perthnasol rhoi lwfans AAA2 i athro dosbarth fyddai'n gymwys ar gyfer lwfans AAA1 ac sydd â'r cymwysterau neu'r profiad, neu'r ddau, y bydd y corff perthnasol yn ystyried ei fod yn berthnasol i waith yr athro

Lwfansau AAA

	1 Medi 2009	1 Medi 2010
Lwfans Anghenion Arbennig 1	£1,956	£2,001
Lwfans Anghenion Arbennig 2	£3,865	£3,954

3.3 Cymelldaliadau a Budd-daliadau Recriwtio a Chadw

- Mae hawl gan y corff perthnasol a'r Awdurdod (os mai dyna yw'r cyflogwr) gynnig taliadau, cefnogaeth neu fuddion eraill i athrawon, yn ôl eu disgresiwn er mwyn:
  - denu athrawon newydd neu gadw athrawon; gelwir y rhain yn gymelldaliadau a budd-daliadau recriwtio a chadw
- Gellir rhoi cymhelldal i ddenu athro newydd, ar ffurf taliadau rheolaidd neu fuddion eraill dros gyfnod o amser, am gyfnod penodedig yn unig (ond dim mwy na 3 blynedd), ac ni ellir ei adnewyddu
- Gellir rhoi cymhelldal i gadw athro cyfredol, ar ffurf taliadau rheolaidd neu fuddion eraill dros gyfnod o amser, am gyfnod penodedig yn unig (ond dim mwy na 3 blynedd), ond fe ellir ei adnewyddu mewn amgylchiadau arbennig

4. Graddfa Cyflogau Athrawon Anghymwysedig

Mae graddfa cyflogau gyda 6 phwynt ar gyfer athrawon anghymwysedig. Bydd unrhyw gynnydd ar sail profiad neu berfformiad ardderchog yn unig.

Graddfa Cyflogau Athrawon Anghymwysedig yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio Llundain)

	1 Medi 2009	1 Medi 2010
Pwynt ar y raddfa	**Cyflog Blynyddol**	
1	£15,461	£15,817

2	£ 17,260	£17,657
3	£19,058	£19,497
4	£20,856	£21,336
5	£22,655	£23,177
6	£24,453	£25,016

5. Diogelu Cyflog

Gweler y School Teachers' Pay and Conditions Document 2010 neu cysyllter ag UCAC am fanylion am ddiogelu cyflog ar adeg o newid/ailstrwythuro, e.e. derbyn lwfans llai o werth, colli cyflog oherwydd newid yn y dull o gyfrif cyflog athrawon rhan amser (Medi 2008), ac ati.

6. Cyflog Athrawon Rhan Amser

- Ers 1 Medi 2008 mae cyflog athro rhan amser yn seiliedig ar y canran o'r amser addysgu wedi'i amserlennu (*School Timetabled Teaching Week - STTW*) a addysgir gan yr athro. Mae amser addysgu wedi'i amserlennu yn cynnwys amser CPA ac unrhyw gyfnodau eraill digyswllt ond nid yw'n cynnwys amser gwasanaeth, nac egwyl, na chinio
- Defnyddir y *STTW* i gyfrifo'r canran o amser y cyflogir yr athro rhan amser; Er enghraifft: os yw cyfanswm amser addysgu wedi'i amserlennu (STTW) yr ysgol yn 25 awr ac mae athro rhan amser yn gweithio 15 awr o'r amser addysgu wedi'i amserlennu, mae felly'n gweithio 60% o swydd llawn amser o fewn yr ysgol. Telir 60% o gyflog (pro rata) ar y pwynt perthnasol o'r raddfa
- Os nad oes problem gyda pherfformiad yr athro, bydd pob athro a gyflogir yn rhan amser, ar 1 Medi bob blwyddyn, yn symud i fyny'r prif raddfa hyd nes cyrraedd pwynt 6
- Gall athrawon rhan amser wneud cais i groesi'r trothwy perfformiad unwaith iddynt gyrraedd pwynt 6 ar y raddfa gyflogau

7. Cyflog Athrawon Cyflenwi / Y Rhai a Gyflogir o ddydd i ddydd neu ar sail byr rybudd

- Fe delir athrawon a gyflogir o ddydd i ddydd, neu am gyfnod byrrach na diwrnod, pro-rata. Cyfrifir y tâl drwy ystyried fod blwyddyn lawn yn 195 o ddiwrnodau gwaith

- Bydd athro cyflenwi sydd wedi gweithio yn ystod 26 wythnos o'r flwyddyn ysgol flaenorol yn symud i fyny'r brif raddfa gyflogau, hyd nes cyrraedd pwynt 6. Nid oes rhaid bod wedi gweithio am 5 diwrnod llawn yn ystod yr wythnosau hyn
- Gall athrawon cyflenwi hefyd wneud cais i groesi'r trothwy perfformiad unwaith iddynt gyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa gyflogau

8. Cyflog adeg Absenoldeb Salwch: Cynllun tâl salwch athrawon

- Blwyddyn 1 o wasanaeth: cyflog llawn am 25 diwrnod gwaith ac, ar ôl cwblhau 4 mis galendr o wasanaeth, hanner cyflog am 50 diwrnod gwaith
- Blwyddyn 2 o wasanaeth: cyflog llawn am 50 diwrnod gwaith a hanner cyflog am 50 diwrnod gwaith
- Blwyddyn 3 o wasanaeth: cyflog llawn am 75 diwrnod gwaith a hanner cyflog am 75 diwrnod gwaith
- Blwyddyn 4 a phob blwyddyn dilynol o wasanaeth: cyflog llawn am 100 diwrnod gwaith a hanner cyflog am 100 diwrnod gwaith
- Ar gyfer y cynllun tâl salwch mae "gwasanaeth" yn cynnwys eich holl wasanaeth addysgu gydag un, neu fwy nag un, Awdurdod Lleol
- Ar gyfer y cynllun hwn, golyga diwrnodau gwaith y diwrnodau o fewn Oriau Cyfeiriedig (*Directed Time*) a gyfeirir atynt yn y School Teachers' Pay and Conditions Document, h.y. 190 diwrnod addysgu disgyblion a 5 diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd. Nid yw diwrnodau gwyliau yn cyfrif tuag at y cyfansymiau hyn
- Bydd athro sy'n derbyn cyflog llawn ar ddechrau'r gwyliau, yn parhau i dderbyn cyflog llawn yn ystod y gwyliau; os bydd wedi dechrau derbyn hanner cyflog cyn y gwyliau bydd yn parhau i dderbyn hanner cyflog yn ystod y gwyliau

9. Athrawon sy'n Gweithio trwy Asiantaeth

Ar hyn o bryd nid yw'r telerau cyflog ac amodau gwaith a nodir yn y STPCD na'r cynllun tâl salwch athrawon yn berthnasol i athrawon sy'n gweithio trwy asiantaeth. Mae eu telerau hwy yn dibynnu ar yr asiantaeth. Mae UCAC yn dal i frwydro'n galed i sicrhau tegwch ar eu cyfer.

Dyma restr o swyddogion cyflogedig UCAC – mae croeso mawr i chi gysylltu â nhw am gyngor pellach:

- Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol - elaine@athrawon.com
- Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd – eryl@athrawon.com
- Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De – dilwyn@athrawon.com
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi – rebecca@athrawon.com

Neu ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950.

Diweddarwyd Gorffennaf 2010

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com